Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(109)v5

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (60 munud)**

**4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen TB mewn Gwartheg (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19 (30 munud)**

**6. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Y camau nesaf yn y gwaith o ddiwygio'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (30 munud)**

**7. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau ddarparu data electronig i gwsmeriaid (15 munud)**

NDM5139 Edwina Hart (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno

y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ynghylch y gofyniad bod cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yn darparu data cwsmeriaid i'r graddau y mae hyn yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
http://services.parliament.uk/bills/2012-13/enterpriseandregulatoryreform/documents.html
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr (30 munud)

NDM5138 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
Dogfennau'r Bil — Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio — Senedd y DU (Saesneg yn unig)
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 9. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (15 munud)

NDM5055 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd yn Nhy'r Cyffredin ar 13 Medi 2012 sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau sydd i'w cymhwyso i'r cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Hydref 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau ategol**
I weld copi o'r Bil ewch i:
Dogfennau'r Bil — Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2012-13 — Senedd y DU (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Nodyn Cyngor Cyfreithiol

### 10. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 (15 munud)

NDM5154 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol(Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol(Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 – Saesneg yn unig
Memorandwm Esboniadol – Saesneg yn unig
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 30 Ionawr 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Ionawr 2013 i'w hateb ar 29 Ionawr 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0872(FM)

2. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae ei bolisïau yn gwella addysg yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0870(FM)

3. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu gwerth am arian mewn prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. OAQ(4)0873(FM)

4. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Ardaloedd Menter yng Nghymru. OAQ(4)0877(FM)

5. Eluned Parrott (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y teithiau a gymerir ar fysiau neu ar drenau ledled Cymru. OAQ(4)0880(FM)

**6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig ym mhob injan dân.  OAQ(4)0875(FM)

**7. David Rees (Aberafan)**: Beth yw blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0882(FM)

**8. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfraniad cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol at economi Cymru. OAQ(4)0871(FM)

**9. Ken Skates (De Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio tai yn 2013. OAQ(4)0878(FM)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Lywodraethu. OAQ(4)0869(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad i Faes Awyr Caerdydd o Orllewin De Cymru. OAQ(4)0874(FM)

**12. Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Sut y mae myfyrwyr o Ogledd Cymru sy'n byw mewn ardaloedd a arferai fod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gallu cael cyllid o dan y rhaglen Ymestyn yn Ehangach. OAQ(4)0881(FM)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw cynllunio gofodol morol yn parhau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0883(FM)**W**

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gydnabyddiaeth a roddir i'r unigolion hynny a fu'n gwasanaethu Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. OAQ(4)0876(FM)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru yn 2013. OAQ(4)0879(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 5 Chwefror a dydd Mercher 6 Chwefror 2013

Toriad: 11 Chwefror 2013 a 17 Chwefror 2013

Dydd Mawrth 19 Chwefror a dydd Mercher 20 Chwefror 2013

Dydd Mawrth 26 Chwefror a dydd Mercher 27 Chwefror 2013

*******************************************************************

Dydd Mawrth 5 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (60 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Cynllunio a Chyllido ôl-16 Adroddiad Interim (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Gwneud gwahaniaeth: Rôl amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd o ran mynd i'r afael â thlodi plant (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Twf a Seilwaith - Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Twf a Seilwaith - Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (15 munud)
- Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl: Ymgyrch Bwyta'n Gall Newid am Oes (60 munud)

Dydd Mercher 6 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

  NNDM5137

  **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
  **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**
  **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
  **Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn nodi bod cerddwyr a anafwyd wedi cynrychioli 21 y cant o'r rheini a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol ar y ffyrdd yng Nghymru yn 2011;

  2. Yn cydnabod y manteision a brofwyd o gael terfynau cyflymder o 20mya o ran lleihau nifer y rhai sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol; ac

  3. Yn galw ar awdurdodau lleol i gynyddu nifer y parthau 20mya yng Nghymru

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Losgi Gwastraff (60 munud)
- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Ofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Mark Isherwood) (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)
- Dadl Fer – Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed) Arbennig, Unigryw ac mewn Argyfwng (30 munud) – gohiriwyd ers 23 Ionawr

Dydd Mawrth 19 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diwygio TGCh - adolygu'r rhaglen Dysgu Digidol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyflwyno'r Bil Teithio Byw (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Ynni (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) (15 munud)
- Dadl: Setliad yr Heddlu (60 munud)

Dydd Mercher 20 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sef 'Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru' (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Lynne Neagle (Tor-faen) (30 munud)

Dydd Mawrth 26 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau amgylcheddol trefol yng Nghymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad ar y Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 (15 munud)

**Dydd Mercher 27 Chwefror 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)